

Cofion a Chyfarchion

- Bu Arthur Owen (Llanefydd) yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau ddechrau'r wythnos. Anfonwn ein cofion cynhesaf ato, ynghyd â'n dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan. Parhawn i gofio am y cleifion eraill yn ein plith hefyd a chyflwynwn hwythau a'u teuluoedd i ofal tyner ein Duw.
- Llongyfarchiadau i Eilir a Charlie Davies (Saron) ar enedigaeth merch, Elain Marial, chwaer fach i Tegid a Lola. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni.

beibl.net mewn print bras

Erbyn Tachwedd 25ain eleni, bydd posib cael beibl.net mewn print bras. Pris y Beibl hwn fydd £24.99, ond gellir cael gostyngiad am bob archeb fydd wedi dod i law cyn hynny. Felly, os am archebu copi **am £20 yr un**, gadewch i Mair wybod **erbyn Tachwedd 21ain**, os gwelwch yn dda. Maint y llyfr yw 165 x 232 x 64 mm (sydd tua'r un maint â Caneuon Ffydd – argraffiad organ). Os ydych eisoes wedi prynu yr un llai o faint i'w ddefnyddio yn y pulpud neu'r sêd fawr, gadewch i Mair wybod ac fe allwn wneud defnydd ohono yng ngweithgarwch yr Ofalaeth, fel y medrwyd chithau gael copi brasach ar gyfer defnydd cyhoeddus yn y capel.



I ddod

- **CYMDEITHAS LLANSANNAN:** Ymweliad â Chanolfan Dydd, Waengoleugoed, Llanelwly a sgwrs gan Dr Mari Lloyd Williams nos Lun, Tachwedd 21ain am 7.30. Rhowch eich enw i Carys Penrhwyfya (870646) neu Dylan Cornwall Ucha (870286) os ydych am ymuno â ni. Os oes gennych unrhyw eitemau newydd nad ydych ei angen, byddai Dr Mari yn gwerthfawrogi petaech yn dod â nhw hefo chi gan fod yno 'siop' sy'n gwerthu pob math o bethau – o fwydydd, i bethau bach fel menyg / sanau, neu anrhegion – a thrwy werthu'r eitemau hyn i rai sy'n galw yno, maent wedi codi dros £1,000 ar gyfer rhedeg y Ganolfan.
- **CYFARFOD BLYNYDDOL EGLWYS UNEDIG LLANSANNAN** nos Fawrth, Tachwedd 22ain am 7.30.
- **GOFAL BUGEILIOL GYDA HENOED, AC EFO BOBL SY'N WYNEBU DIWEDD OES** – Hyfforddiant gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Ngholeg y Bala, dydd Iau, Rhagfyr 1af o 10.30 – 3.00 i weinidogion, ymgeiswyr ac eraill sy'n ymweld â chleifion. Mae'r hyfforddiant, fydd trwy gyfrwng y Saesneg, am ddim. Fe ddarperir cinio, ond rhaid archebu lle ymlaen llaw. Rhowch eich enw i Mair erbyn Tachwedd 18fed os oes gennych ddiddordeb.

Darllenid Wythnos Nesaf

2 Pedr 1:19-21 (BCND tud.260 / BCN tud.238)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13^{eg} Tachwedd 2016

Darllenid y Dydd

Jeremeia 29: 10-14

(BCND tud.715 / BCN tud.652)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i chi i'r oedfaon ar draws Bro Aled heddiw. Rhyfedd fod newyddion am ddyn o'r enw Donald yn cael symud i fyw i Dŷ Gwyn yn America yn gallu achosi'r fath helynt ynte?! Dyna fu'n mynd â bryd bron pob bwletin newyddion o ddydd Mawrth ymlaen gyda nifer yn ceisio rhagweld beth fydd yn digwydd nesaf ar ôl y bleidlais ddramatig yr ochr arall i Fôr yr Iwerydd. Wrth ystyried y bleidlais hon, a Phrydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae nifer wedi holi'n bryderus beth fydd hyn i gyd yn ei olygu i'n byd? Mwy o ansicrwydd a thlodi, neu a oes llygedyn o obaith am lwyddiant a heddwch?

Yn aml gall y Cristion hefyd ofyn cwestiynau tebyg wrth wynebu sefyllfaoedd personol annisgwyl, ac ar yr adegau hynny daw geiriau'r Arglwydd a welwn yn ein darllenid ar y cyd yn gryn gysur. Yn Jeremeia 29, er nad yw'r Arglwydd yn cynnig manylion i'w bobl yn egluro beth yn union fydd yn digwydd ar bob cam, mae yn rhoi addewidion o'i fwriadau iddynt, ac yn gwneud hynny er mwyn iddynt gael dyfodol gobeithiol (ad. 11). Bwriadau daionus o heddwch, ac nid niwed, oedd gan yr Arglwydd i'w bobl, er y byddai'n rhaid iddynt ddygymod â chaledi'r gaethglud ym Mabilon am gryn amser.

Yr hyn sy'n syfrdanol yw'r ffaith fod Duw wedi gweld sefyllfa'i bobl a chynnig gobaith iddynt, nid trwy eu hannog i feddwl yn bositif a gobeithio am y gorau (celwydd gau-broffwydi yw hynny), ond yn hytrach trwy eu hatgoffa i ddychwelyd ato Ef. Sylwch beth mae'r Arglwydd yn ei ddweud – galwch arnaf.... gweddiwch.... 'Fe'm ceisiwch a'm cael; pan chwiliwch â'ch holl galon fe'm cewch,' medd yr Arglwydd' (ad. 13-14). Dyna'r allwedd i wir heddwch a daioni helaeth Duw – dod i'w adnabod Ef drosom ein hunain. Ydym ni wedi gwneud hynny – chwilio am Dduw o ddiifri? Os ydym ni'n barod i wneud hynny rhaid i ni fod yn barod i droi cefn ar yr hyn sy'n rheoli'n bywydau ni – troi cefn ar ein pechod a rhoi ein hunain i Grist fel y dywedodd Pedr ar ddydd y Pentecost (Actau 2:38). Wrth i ni droi at Iesu ac ymddiried ynddo, dywed y Beibl ein bod yn dod i adnabod Duw, yn wir ein bod yn dod i adnabod Duw fel Tad. Ond beth am yr heddwch a'r llwyddiant? Golyga addewidion Duw fod heddwch a llwyddiant i'r Cristion yn golygu perthynas gywir hefo'r Hollalluog oherwydd yr hyn wnaeth Iesu ar y Groes drosto. Ac ar ben hynny caiff Cristnogion brofi o'r cyfan sydd gan Dduw i'w blant am dragwyddoldeb. Gwelwn fod hyn yn wir am i Iesu ei hun adleisio'r geiriau o Jeremeia pan wahoddodd pobl i ddod ato, ac o gredu ynddo y gallent dderbyn bywyd yn ei holl gyflawnder. (Ioan 10:10)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 13^{eg} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 15^{fed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Iau – 17^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 18^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Gwener - Sul – 18^{fed} – 20^{fed} ➤ **Penwythnos Blaenoriaid** yng Ngholeg Trefeca, Tachwedd 18-20fed. “Addoliad” – hen a newydd / pam newid / sut mae eglwysi eraill yn gwneud pethe? Y cyfrannwyr fydd: Sioned Williams, Llanefydd; Jenny Garrard; Meleri Cray a Delyth Oswy. Cyfle i arbrofi ac ystyried be sy'n addas i'ch capel chi. Mwy o fanylion gan Reolydd Coleg Trefeca: 01874 711423 / colegtrefeca@ebcpw.org.uk.
- Sul nesaf – 20^{fed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 13^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 20^{fed} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 13^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50. Ni fydd Ysgol Sul i'r oedolion.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn heddiw.
- Sul nesaf – 20^{fed} ➤ Bydd Sarah Dafydd yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Sarah Dafydd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 13^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 20^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 13^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00, a hefyd yn Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 20^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 13^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 18^{fed} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Tachwedd 13eg**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 20^{fed} ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.